Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Cabinet | Dyddiad: | 16 Hydref 2019 |
| | | Rhif Union: | 01824712568 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 22 HYDREF 2019** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Medi 2019 (copi ynghlwm).

**5 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 15 - 32)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**6 BLAEN RAGLEN WAITH Y CABINET** (Tudalennau 33 - 36)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol amgaeedig y Cabinet a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**7 CASTELL BODELWYDDAN** (Tudalennau 37 - 52)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn ceisio adolygiad y Cabinet i adolygu'r telerau i werthu'r eiddo.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Evans
Bobby Feeley
Huw Hilditch-Roberts
Richard Mainon
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Brian Jones
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br><br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 24 Medi 2019 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd; Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; a Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Meirick Davies, Hugh Irving, Alan James, Gwyneth Kensler, Barry Mellor, Glenn Swingler, Rhys Thomas, Graham Timms, Huw Williams ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB) a Chymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (EJ), Rheolwr Rhaglen a Thîm Datblygu Busnes ac Economaidd (MH); Prif Gyfrifydd a Swyddog A.151 (SG) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Tony Thomas gysylltiad personol gydag eitem 11 ar y rhaglen gan ei fod yn Is-Gadeirydd Ardal Gwella Busnes (BID) y Rhyl ac roedd Civica yn casglu ardoll y BID.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2019.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2019 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.*

**5 DOGFEN UWCH-GYNLLUN A GWELEDIGAETH CANOL TREF Y RHYL**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a fersiwn derfynol o ddogfen Weledigaeth Canol Tref y Rhyl a'r dull arfaethedig ar gyfer llywodraethu a rhoi adnoddau i'w gyflawni.

Roedd y Cyngor wedi gweithio ar y cyd dros y deunaw mis diwethaf gan ymgysylltu gydag ystod o bobl a phartneriaid i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer Canol Tref y Rhyl, a oedd yn canolbwyntio ar: ddarparu cytbwysedd bywiog o ran defnydd, gwell mynediad at ganol y dref a llif cerddwyr o amgylch canol y dref, ac atmosffer canol y dref dymunol. Mae wyth syniad allweddol wedi'u cynhyrchu ac roedd gwaith ar y gweill i'w datblygu mewn rhaglen gwaith i'r dyfodol o flaenoriaethau a phrosiectau dros gyfnod pymtheg mlynedd y Weledigaeth. Byddai hyn yn ffurfio sail y cynllun gweithredu drafft ar gyfer y rhaglen er mwyn i Fwrdd Rhaglen y Rhyl ei symud ymlaen.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y buddsoddiad a'r gwelliannau sylweddol yn y Rhyl dros y blynyddoedd diwethaf a bod angen cynllunio i ddatblygu canol y dref gyda Gweledigaeth a oedd yn adlewyrchu dyheadau lleol drwy broses ymgysylltu helaeth, ac a oedd yn ategu at gynlluniau presennol a buddsoddiad gyda dull cydlynol. Darparodd y Rheolwr Rhaglen a Thîm Datblygu Busnes ac Economaidd rywfaint o gefndir creu'r ddogfen Weledigaeth a phroses ymgysylltu gynhwysfawr, gan dynnu sylw at y prif themâu sy'n dod i'r amlwg a'r prosiectau allweddol i ddatblygu'r syniadau allweddol, a darparu trosolwg o brosiectau presennol a'r rhai sydd eisoes ar y gweill er mwyn cymryd mantais o'r cyfleoedd cyllid adfywio presennol a gyda'r nod o ddenu buddsoddiad y sector preifat.

Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at waith Bwrdd Datblygu Cymunedol y Rhyl yn ategu at yr uwch gynllun a mynd i'r afael â materion cymdeithasol ac eglurodd y Prif Weithredwr rôl y Bwrdd, yn cynnwys uwch arweinwyr o'r sectorau statudol, i ystyried sut i wneud y budd mwyaf ar y cyd o fuddsoddiad ac adfywio wedi'i gynllunio'n ehangach yn y Rhyl i gydlynu a gwneud y mwyaf o gyfleoedd o ran cyflogaeth, iechyd, addysg, diogelwch cymunedol a thai. Roedd y Cyngor wedi penderfynu buddsoddi mewn Swyddog Datblygu Cymunedol yn y Rhyl i weithio gyda'r gweithwyr o'r asiantaethau statudol, y sector gwirfoddol a'r grwpiau cymunedol i gynorthwyo i gyfeirio a gwneud y mwyaf o gyfleoedd cyllid ac adnoddau, i adrodd i'r Bwrdd ac i Grŵp Cyfeirio'r Rhyl i sicrhau ymgysylltiad gwleidyddol, a byddai adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Cabinet. Roedd y Bwrdd wedi gosod targedau llym yn seiliedig ar y dangosyddion amddifadedd gyda'r bwriad o nodi effaith y buddsoddiad ar breswylwyr.

Croesawodd y Cabinet y ddogfen fel modd o ddarparu canolbwynt clir ar gyfer canol y dref a'i adfywiad a rhoi hyder a chreu dyfodol hir dymor gwell ar gyfer y Rhyl. Croesawyd y broses ymgysylltu gynhwysfawr a'r ymdrechion cydweithredol i gynhyrchu'r Weledigaeth hefyd. Roedd y prif bwyntiau trafod yn cynnwys -

- o ran blaenoriaethu a chynllunio prosiectau, hysbyswyd yr aelodau bod y ddogfen Weledigaeth yn nodi rhaglen hir dymor a byddai prosiectau'n cael eu blaenoriaethu gan ddefnyddio'r fethodoleg gorfforaethol yn seiliedig ar fuddion a chanlyniadau mesuradwy; darparwyd sicrwydd o ran hyblygrwydd o fewn y

cynllun i ymateb i'r cyfleoedd fel yr oeddent yn dod i'r amlwg pe bai cyllid ar gael, yn yr un modd pe bai diddordeb gan y sector preifat byddai'n bosibl symud prosiect i fuddsoddiad sector preifat diogel a gwneud y mwyaf o'r buddion.

- Nododd y Prif Weithredwr adfywiad ffisegol y Rhyl a oedd yn amlwg wrth ymweld â'r dref a'r cynlluniau adfywio hirdymor, a thynnu sylw at yr her o sicrhau y byddai buddsoddi mewn isadeiledd yn cael effaith gadarnhaol ar breswylwyr lleol a safonau byw.
  Roedd wedi ymweld â holl ardaloedd ward y sir ac wedi ymgysylltu â busnesau a phreswylwyr lleol wrth ymweld â'r Rhyl gan dynnu sylw at bwysigrwydd gwrando ar y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.
- Croesawodd y Cynghorydd Richard Mainon swydd Swyddog Datblygu Cymunedol er mwyn gwneud y mwyaf o'r buddion a'r canlyniadau ac roedd yn awyddus bod y Cabinet yn derbyn adborth ynglŷn â hynny – cadarnhawyd y rhoddir ystyriaeth i gynnwys ymgysylltiad gydag aelodau ar yr elfennau adfywio a datblygu cymunedol a'r bwriad oedd darparu adroddiadau diweddaru i'r Cabinet a'r aelodau lleol.
  Nid oedd unrhyw aelodau etholedig ar y Bwrdd Datblygu Cymunedol oherwydd roedd yn cynnwys grŵp o uwch swyddogion i drafod materion gweithredol ac ymarferol.

Gofynnodd yr Arweinydd am gwestiynau gan rai nad ydynt yn Aelodau Cabinet-

- Diolchodd y Cynghorydd Joan Butterfield i'r Cyngor ar ran preswylwyr y Rhyl am eu hymroddiad i adfywio'r Rhyl ac am y cyfraniadau lleol yn y ddogfen Weledigaeth.
  O ran ymgysylltu â'r gymuned yn y dyfodol, rhoddwyd sicrwydd y byddai'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu â'r gymuned leol yn hir dymor wrth i'r uwch gynllun barhau.
- Roedd y Cynghorydd Meirick Davies yn awyddus am fuddsoddiad yn Nhrefnant a chydnabu'r aelodau bod angen gwario mewn ardaloedd ward eraill a thrafod potensial ffynonellau cyllid ar gyfer gwahanol brosiectau mewn gwahanol ardaloedd – nodwyd bod rhai prosiectau adfywio yn y Rhyl yn gymwys ar gyfer cyllid grant ond ar gyfer ardaloedd gwledig roedd potensial ar gyfer cyllid fferm wynt ar gyfer prosiectau lleol.
  O ran cwestiwn am adeiladau hanesyddol yn y Rhyl, darparwyd sicrwydd ynglŷn ag ymrwymiad y Cyngor o ran hynny drwy gymryd camau i wella a chadw adeiladau hanesyddol yn y dref.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler at swm y buddsoddiad yn y Rhyl dros sawl blwyddyn a holi a wnaed asesiad o'r canlyniadau.
  Cytunwyd y gellir dysgu gwersi o'r gorffennol ond na fu buddsoddiad yn y gorffennol yn gynaliadwy a byddai'r cynllun yn edrych tuag at y dyfodol ac yn hwyluso gwelliannau mewn safonau byw, nid buddsoddiad cyfalaf yn unig. O ran goblygiadau refeniw darparwyd sicrwydd bod hyn yn ystyriaeth gan y Grŵp Buddsoddi Strategol yng ngham achos busnes y prosiectau unigol.
- Lleisiodd y Cynghorydd Barry Mellor ei gefnogaeth ar gyfer y ddogfen Weledigaeth a thynnu sylw at fuddion y gwaith adfywio sydd eisoes wedi'i gyflawni, yn enwedig o ran y ddwy ysgol newydd, ac fe gadarnhawyd iddo bod y Weledigaeth yn darparu'r hyder gofynnol yn nyfodol y dref.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

(a) *yn cefnogi dyheadau hirdymor a'r 8 syniad allweddol a nodwyd yn y ddogfen Weledigaeth (Atodiad 2 yr adroddiad), ac*

(b) *yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'u hystyriaethau, ac yn ymrwymo bod y Cyngor yn canolbwyntio ar gyflawni'r effeithiau lles hirdymor cadarnhaol sydd wedi'u nodi ynddo.*

## 6 CYFLWYNO MODEL DARPARU AMGEN (MDA) AR GYFER AMRYWIOL WEITHGAREDDAU/ SWYDDOGAETHAU CYSYLLTIEDIG Â HAMDDEN - CYFANSODDIAD Y BWRDD LLYWODRAETHU STRATEGOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cyfansoddiad y Bwrdd Llywodraethu Strategol i fonitro a rheoli'r berthynas rhwng y Cyngor a Denbighshire Leisure Limited (y Cwmni). [Byddai gweithrediad dydd i ddydd y Cwmni'n gyfrifoldeb i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni sy'n destun adroddiad ar wahân]

Roedd y Cyngor wedi cytuno i gefnogi creu cwmni masnachu awdurdod lleol cyfyngedig drwy warant nad er elw ar 30 Mai 2019 ac roedd yr adroddiad yn gam arall yn y broses honno. Byddai'r Cwmni yn endid cyfreithiol ar wahân i'r Cyngor ond byddai'n darparu gwasanaethau i'r Cyngor o dan delerau contract. O ganlyniad byddai angen sefydlu fforwm, sef y Bwrdd Llywodraethu Strategol arfaethedig, er mwyn galluogi'r Cyngor i gynnal gwaith monitro a darparu trosolwg rheolaidd ac effeithiol o berfformiad y Cwmni a lle y gellir trafod materion amrywiol rhwng y Cyngor a'r Cwmni.

Ymhelaethodd Pennaeth y Gyfraith, AD a'r Gwasanaethau Democrataidd ymhellach ar rôl y Bwrdd a'r rhesymau dros y cyfansoddiad a awgrymir i gynnwys aelodau a swyddogion allweddol yn unol â'r rolau dynodedig o fewn yr awdurdod. Gan mai syniad y Cabinet oedd y Bwrdd yn ei hanfod er mwyn goruchwylio'r swyddogaeth hamdden gweithredol, penderfyniad y Cabinet ydoedd nid penderfyniad y Cyngor. Wrth ymateb i gwestiynau, pwysleisiodd y swyddogion fuddion y penderfyniad i greu Cwmni newydd a sefydlu Bwrdd Llywodraethu Strategol i'w oruchwylio. O ran hyfforddiant staff, cadarnhawyd y byddai gan staff o fewn y Cwmni a'r Cyngor amodau a thelerau cyfartal a gallent ddisgwyl mynediad cyfartal ar gyfer eu hanghenion hyfforddiant. Ond pe nodir anghenion hyfforddiant ar gyfer staff o fewn y Cwmni, fel unrhyw anghenion hyfforddiant a nodir ar gyfer Staff y Cyngor, ni fyddai o reidrwydd yn cael ei ddarparu gan y Cyngor a gallai gael ei ddarparu gan gorff allanol. Eglurwyd hefyd bod cyllideb ddigonol wedi'i dyrannu i'r Cwmni ar gyfer costau prynu mewn perthynas â'r gwasanaethau cefnogaeth megis hyfforddiant, cyfathrebu / marchnata, cyllid, TGCh ac AD - gallai'r Cwmni ddewis, a byddent i ddechrau, yn prynu cefnogaeth gan y Cyngor ond yn ddiweddarach efallai y byddant yn dewis prynu'r gwasanaethau cefnogaeth o fan arall.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

(a) *yn cymeradwyo cyfansoddiad y Bwrdd Llywodraethu Strategol fel y nodwyd ym mharagraff 4.10 o'r adroddiad fel a ganlyn-*

- *Prif Weithredwr neu gynrychiolydd enwebedig (Cadeirydd)*
- *Yr Arweinydd*
- *Aelod Arweiniol Cyllid*
- *Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol*
- *Cadeirydd Pwyllgor Craffu*
- *Swyddog Monitro (neu gynrychiolydd enwebedig)*
- *Swyddog A151(neu gynrychiolydd enwebedig)*
- *Rheolwr Contractau*
- *Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant*

(b) *yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'u hystyriaethau.*

**7 CYFLWYNO MODEL DARPARU AMGEN (MDA) AR GYFER AMRYWIOL WEITHGAREDDAU/ SWYDDOGAETHAU CYSYLLTIEDIG Â HAMDDEN - CYFANSODDIAD Y BWRDD CYFARWYDDWYR**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley adroddiad yn ceisio argymhelliad y Cabinet i'r Cyngor ar gyfansoddiad a phenodiad Bwrdd Cyfarwyddwyr Denbighshire Leisure Limited (y Cwmni) a fydd yn gyfrifol am weithrediad dydd i ddydd y Cwmni. [Byddai monitro a goruchwylio perfformiad y Cwmni yn gyfrifoldeb i'r Bwrdd Llywodraethu Strategol fel y cymeradwywyd ynghynt yn y rhaglen].

Ar 30 Mai 2019 cytunodd y Cyngor y byddent yn cefnogi creu cwmni masnachu awdurdod lleol cyfyngedig drwy warant nad er elw ac roeddent wedi cymeradwyo penodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus fel Cyfarwyddwr. Er bod yr achos busnes cychwynnol wedi awgrymu Cyfarwyddwr Cyllid roedd gwaith pellach yn awgrymu y gellir darparu arbenigedd, cyngor a rheolaeth ariannol priodol o'r Cwmni mewn modd arall heblaw drwy greu swydd ar y Bwrdd. Felly cynigwyd bod y rolau'n cael eu llenwi gan gynghorwyr a gweithwyr y Cwmni ynghyd ag aelodau annibynnol sy'n cael eu recriwtio drwy hysbyseb agored.

Eglurodd Pennaeth y Gyfraith, AD a'r Gwasanaethau Democrataidd rôl y Bwrdd ymhellach a phwysigrwydd cynnwys cymysgedd priodol o sgiliau yn yr aelodaeth. Roedd Saith Cyfarwyddwr wedi'u cynnig ac fe gynigwyd bod rhai swyddi penodol ar y Bwrdd yn cael eu llenwi o ganlyniad i swydd neu gyflogaeth benodol h.y. Cyfarwyddwr Corfforaethol, Rheolwr Gyfarwyddwr, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd. Awgrymwyd Cyfarwyddwr ychwanegol nad yw'n aelod o'r Cabinet, gyda phrofiad busnes a /neu ddiddordeb yn y sector hamdden, gan nodi y dylid ceisio enwebiadau ar gyfer y rôl gan y Cyngor. Awgrymwyd y dylid llenwi'r ddwy swydd arall ar gyfer Cyfarwyddwyr gan unigolion annibynnol sy'n cael eu recriwtio drwy hysbyseb agored, un gyda phwyslais ar hamdden / cyllid a'r llall ar ddatblygu cymunedol / hamdden, ac y dylid eu penodi gan y Cyngor. Eglurwyd hefyd y byddai'r rhai sy'n cael eu penodi i'r Bwrdd yn destun cyfrifoldebau statudol Cyfarwyddwyr ac yn derbyn hyfforddiant. Fel rhan arferol o'u dyletswyddau

byddai'r Cyfarwyddwyr yn cael eu digolledu mewn perthynas â'u gwahanol rwymedigaethau.

Mewn ymateb i gwestiynau, cadarnhawyd-

- o ran y ddau Gyfarwyddwr Annibynnol, awgrymwyd y dylent dderbyn yr un taliadau presenoldeb â'r aelodau cyfetholedig ar gyfer y Pwyllgorau Craffu, aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau ac aelod lleyg y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol fel y gosodwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ac y byddai'r Cwmni'n gyfrifol am wneud y taliadau hynny.
- roedd gan yr holl Gyfarwyddwyr gyfrifoldeb statudol i osgoi gwrthdaro buddiannau.
  Roedd Cytundeb Aelod ac Erthyglau Cymdeithas wedi'u hysgrifennu mewn modd lle na ddylid trin swyddogion neu aelodau o'r cyngor fel rhai sydd â buddiannau sy'n gwrthdaro os ydynt yn gwasanaethu fel Cyfarwyddwyr. O ran penodiadau annibynnol yna byddai'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r holl reolau ar gyfer Cyfarwyddwyr mewn perthynas â gwrthdaro buddiannau a datgan unrhyw gysylltiad o'r fath.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a) yn cefnogi cyfansoddiad Bwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni fel y nodir yn yr adroddiad ac yn argymell y cyfansoddiad i'r Cyngor-*

- *Cyfarwyddwr Corfforaethol:*
  *Economi a'r Parth Cyhoeddus*
- *Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth*
- *Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd*
- *Rheolwr Gyfarwyddwr*
- *Cyfarwyddwr Annibynnol x 2*
- *Aelod nad yw'n aelod Cabinet*

*(b) yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'u hystyriaethau.*

Ar y pwynt hwn (11.25 am) cymerodd yr aelodau egwyl am luniaeth.

## 8 ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2018/19

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad yn diweddaru'r aelodau ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys ac yn dangos cydymffurfiad â chyfyngiadau'r trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus yn ystod 2018/19.

Wrth grynhoi'r adroddiad, cyfeiriodd y Cynghorydd Thompson-Hill at bwysigrwydd rheoli'r trysorlys a chyfeirio at y cefndir economaidd a'i effaith ar weithgareddau rheoli'r trysorlys. Nododd y prif bwyntiau ar gyfer aelodau o ran gweithgareddau benthyca a buddsoddi a chadarnhau cydymffurfiaeth gyda'r holl ddangosyddion darbodus a osodwyd, gan ymhelaethu ar y dangosyddion a nodwyd yn Atodiad B a chadarnhau cymarebau priodol costau ariannu a lefelau benthyca o fewn y terfynau.

Cafwyd rhywfaint o drafod ynglŷn â'r gymhareb ragamcanol a'r gymhareb wirioneddol o'r costau ariannu i'r ffrwd refeniw net ac fe gadarnhawyd na osodwyd unrhyw lefel statudol ac mai cyfrifoldeb awdurdodau unigol oedd ystyried beth oedd yn lefel ddarbodus yn eu tyb nhw. Cyfeiriwyd hefyd at y drefn gyllid a nodwyd drwy ariannu Cynllun Amddiffyn yr Arfordir yn Nwyrain y Rhyl yn ddiweddar ac effaith refeniw y newid hwnnw, ac yr oedd disgwyl i'r awdurdod lleol ariannu'r holl fenthyca ymlaen llaw ond gyda chyfraniad Llywodraeth Cymru'n cael ei ad-dalu dros y cyfnod benthyca o 25 mlynedd. Fel Aelod Arweiniol cadarnhaodd y Cynghorydd Thompson-Hill ei fod yn gyfforddus gyda'r lefel bresennol a nododd ei fod yn cynrychioli gwerth da ar y buddsoddiadau a wnaed. Ychwanegodd y Prif Gyfrifydd / Swyddog A151 bod ymarferion meincnodi ysbeidiol yn cael eu cynnal gydag awdurdodau lleol eraill at ddibenion cymharu a oedd yn nodi bod y Cyngor o fewn terfynau cyfforddus.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet –*

*(a) Yn nodi perfformiad swyddogaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2018/19 a'i chydymffurfiaeth â'r dangosyddion darbodus gofynnol, fel yr adroddwyd yn adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol 2018/19 (Atodiad 1 yr adroddiad), ac*

*(b) yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 yr adroddiad) fel rhan o'u hystyriaethau.*

## 9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb. Rhoddodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn -

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2019/20 oedd £198.538 miliwn (£194.418m yn 2018/19)
- roedd amcanestyniad o orwariant o £1.379 miliwn ar gyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol
- nodwyd fod angen arbedion ac arbedion effeithlonrwydd gwerth £5.672 miliwn, gan gynnwys arbedion corfforaethol a nodwyd yn 2018/19 (£0.5 miliwn), arbedion ysgolion gwerth 2% (£1.32 miliwn) ac arbedion yn y gwasanaethau (£3.852 miliwn)
- tynnwyd sylw at risgiau ac amrywiadau presennol yn ymwneud â meysydd gwasanaeth penodol, yn enwedig o ran gorwariant yn y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a'r Gwasanaethau Addysg a Phlant er gwaethaf cynnydd yn y cyllidebau sylfaenol, a
- rhoddwyd diweddariad cyffredinol ar y Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai

Gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo'r defnydd o'r Grant Cynhaliaeth Ysgolion fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Buddsoddi Strategol.

Trafododd y Cabinet y materion canlynol yn fanwl-

- o ran cludiant ysgol, roedd newidiadau deddfwriaethol sy'n dod i rym yn y flwyddyn newydd yn ei gwneud yn ofynnol bod mynediad i bobl anabl ar gludiant nad yw'n gonsesiynol, ac o ystyried bod consesiynau'n cael eu cynnig i blant eisoes, roedd pryderon difrifol am y gallu i ddiwallu'r ddarpariaeth.
  Nodwyd y byddai Grŵp Ymgynghorol Cludiant rhanbarthol yn ysgrifennu at Weinidog yr Economi a Chludiant yn tynnu sylw at y pryderon hynny a chytunodd y Cynghorydd Brian Jones y byddai hefyd yn ysgrifennu at y Gweinidog ar ran y Cyngor.
- Croesawodd yr aelodau'r Grant Cynhaliaeth Ysgolion a ddyfarnwyd i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru a'r newidiadau a oedd yn caniatáu defnyddio cyllid ar gyfer gwaith hanfodol a meysydd gyda'r anghenion mwyaf ac fe gefnogodd y Cabinet y dull na ddylid dyrannu cyllid i ysgolion ym Mand A Ysgolion yr 21ain Ganrif neu ysgolion sy'n debygol o elwa o Fand B ac argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol.
- Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynglŷn â gofal cymdeithasol plant, yn benodol o ran costau lleoliadau, ac fe eglurodd Cyfarwyddwr : Cymunedau bod Gweithgor Llywodraeth Cymru yn ystyried y mater hwnnw ymhellach a chomisiynu darparwyr o ansawdd uchel – cydnabuwyd bod costau lleoliadau yn wahanol mewn gwahanol ardaloedd yn y DU gydag ardaloedd â phoblogaeth uwch yn meddu ar fwy o bŵer prynu.
  Cadarnhaodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts bod y Cyngor yn gwneud popeth o fewn eu gallu i fynd i'r afael â'r costau ac roedd ganddo hyder yn y broses gomisiynu. Eglurodd yr anawsterau o ran creu darpariaeth arbenigol yn lleol o ystyried y gwahanol anghenion a'r flaenoriaeth oedd comisiynu lleoliadau sy'n diwallu anghenion y plant orau gan olygu lleoliadau y tu allan i'r sir mewn achosion arbenigol gan achosi costau lleoliadau uchel.
- Tynnodd y Cynghorydd Bobby Feeley sylw at y pwysau parhaus yn y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Oedolion gyda gweddill cronfa wrth gefn y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu'r gorwariant presennol na fyddai ar gael yn y dyfodol a gofynnodd bod mwy o arian yn cael ei ddyrannu i'r gwasanaeth.

Wrth ymateb i gwestiynau gan gynghorwyr nad oeddent yn Aelodau o'r Cabinet, bu i'r Aelodau Arweiniol a'r swyddogion ymateb fel a ganlyn –

- o ran balansau ysgolion, roedd cynlluniau adfer ariannol cadarn yn eu lle ar gyfer ysgolion gyda diffyg ariannol ac rydym yn eu monitro'n agos; roedd yr holl ysgolion gyda diffyg ariannol yn datblygu fel y disgwylir yn erbyn eu cynlluniau adfer a byddai diweddariad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.
  Roedd balansau ysgolion yn cael eu monitro'n barhaus ac roedd dull o alw ysgolion gerbron y Pwyllgor Craffu neu'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol pe bai'r angen.
- Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y byddent yn lansio menter nofio am ddim diwygiedig a fyddai'n arwain at 25% o ostyngiad yn y cyllid y mae'r Cyngor yn ei dderbyn yn y flwyddyn ariannol hon a 50% o ostyngiad o fis Ebrill 2020- yn anffodus roedd hyn yn golygu bod rhaid i'r Cyngor adolygu'r rhaglen nofio a

chynnig llai o weithgareddau nofio am ddim; byddai datganiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi'n fuan ynglŷn â'r mater

- Sefydlwyd Grŵp Swyddogion Brexit ac roedd swyddog arweiniol ar gyfer Brexit a chofrestr risg Brexit ac roedd y mater yn cael ei drafod yn rheolaidd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth o ran lliniaru unrhyw effaith ar y Cyngor a'i weithrediadau.

  Yn benodol o ran prydau ysgol, cafwyd trafodaethau gyda chwmnïau cyflenwi arlwyo a gwasanaeth prydau ysgol a fyddai'n addasu'r fwydlen am y cyfnod gofynnol i sicrhau bod yr holl blant yn derbyn pryd maethlon yn yr ysgol
- o ran costau tribiwnlys yn codi o apeliadau lleoliadau plant, eglurwyd y gallai'r Cyngor dalu am ei gostau cyfreithiol ei hun ond prin iawn y byddai gofyn iddynt dalu costau eraill; boed yr achosion unigol yn ymwneud â chamau penodol a gymerwyd yn y gorffennol neu beidio byddai'n ofynnol adolygu pob achos unigol i nodi'r rhesymau dros gyflwyno'r achos
- eglurwyd y newidiadau i waith cysylltu draeniau dŵr budr sy'n ofynnol ar gyfer safle newydd Ysgol Llanfair gan fod y manylion cychwynnol a ddarparwyd yn ymwneud â mynediad i'r briffordd yn anghywir, yn unol â chyngor Dŵr Cymru, ac felly roedd angen hawddfraint ar gyfer mynediad i'r draen dŵr budr - roedd y mater wedi'i gyflawni'n uniongyrchol gan Ddŵr Cymru yn sgil yr oedi a'r costau a achoswyd.
- Roedd cynigion ar gyfer Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif bron â'u cwblhau a byddent yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

(a) *yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2019/20 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb, ac*

(b) *yn cymeradwyo'r defnydd o'r Grant Cynhaliaeth Ysgolion sydd wedi'i ddyfarnu i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru, fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac fel y nodwyd yn Atodiad 5, 6 a 7 yr adroddiad.*

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r ychwanegiadau canlynol -

- Strategaeth Llyfrgelloedd – Hydref
- Castell Bodelwyddan – Tachwedd

Cadarnhawyd y byddai adroddiad ar Brosiect Archif ar y Cyd Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu cyn y Cabinet ym mis Tachwedd.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol, dan ddarpariaethau Adran 100(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff*

*14, Rhan 4, Atodlen 12A o'r Ddeddf.*

**11 ESTYNIAD I GYTUNDEB GWASANAETH A REOLIR AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU REFENIW A BUDD-DALIADAU**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad cyfrinachol yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymestyn Cytundeb Gwasanaeth a Reolir ar gyfer darparu Gwasanaethau Refeniw a Budd-daliadau.

Darparwyd rhywfaint o wybodaeth gefndir ynglŷn â'r contract presennol ynghyd â'r rhesymau dros yr argymhelliad ar gyfer estyniad o'r bartneriaeth o fis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2025 o ystyried yr arbedion a fydd yn cael eu gwireddu yn y cyfnod ac i ganiatáu parhad llwyddiant y bartneriaeth fel y nodwyd yn yr adroddiad ac i sicrhau parhad busnes. Roedd y contract gwreiddiol yn caniatáu estyniad o 3 blynedd yn unol â'r gofynion ond oherwydd gwerth y contract roedd angen cymeradwyaeth y Cabinet. Cynigiwyd bod y penderfyniad yn cael ei weithredu ar unwaith gan fod trafod y disgownt i ryw raddau yn dibynnu ar allu Civica i gwblhau'r cytundeb cyn diwedd eu blwyddyn ariannol ar 30 Medi er mwyn gallu ei ystyried yn eu datganiadau ariannol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a) yn nodi buddion ariannol a buddion heb fod yn ariannol o ganlyniad i ymestyn y contract gyda Civica;*

*(b) Cymeradwyo estyniad o 3 blynedd i'r contract gyda Civica i ddarparu Cytundeb Gwasanaeth a Reolir ar gyfer darparu Gwasanaethau Refeniw a Budd-daliadau, a*

*(c) Chadarnhau bod yn rhaid gweithredu'r penderfyniad ar unwaith yn unol â pharagraff 7.25 o gyfansoddiad y Cyngor.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40pm.

**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y cyfarfod:** 22 Hydref 2019

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill

**Awdur yr Adroddiad:** Steve Gadd, Prif Gyfrifydd

**Teitl**: Adroddiad Cyllid (Medi 2019/20)

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**
Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2019/20. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**
Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol bresennol y cyngor, a chadarnhau'r cyllidebau gwasanaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer 2019/20.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**
Argymhellir:
i) Bod Aelodau'r Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2019/20 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni.
**ii)** Bod aelodau'n cymeradwyo trosglwyddo cronfeydd arian o'r cyfrif wrth gefn cyflawni arbedion i'r Gwasanaethau Hamdden i wrthbwyso'r angen i ddyrannu arbedion Benthyca Darbodus i SC2 yn hytrach nag oedi sefydlu'r Model Darparu Amgen.

4. **Manylion yr adroddiad**
Mae'r adroddiad yn crynhoi cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2019/20 fel y nodwyd yn Atodiad 1. Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £198.538 miliwn (£194.418 miliwn yn 18/19). Rhagwelir y bydd gorwariant o £1.733 miliwn ar wasanaethau a chyllidebau corfforaethol (1.379 miliwn fis diwethaf). Amlinellir y naratif o amgylch y risgiau a'r rhagdybiaethau presennol sy'n sail i'r asesiad hwn yn Adran 6.

Roedd cyllideb 2019/20 angen nodi a chytuno ar arbedion ac effeithlonrwydd o £5.672 miliwn fel y nodir isod:
- Arbedion corfforaethol a nodwyd yn 2018/19 (£0.5 miliwn)
- Arbedion ysgolion o 2% (£1.32 miliwn)
- Arbedion ac effeithlonrwydd gwasanaeth (£3.852 miliwn)

Fel yr addawyd fis diwethaf, mae arbedion gwasanaethau wedi cael eu hadolygu a disgwylir i'r rhan fwyaf ohonynt gael eu darparu yn unol â'r targed. Fodd bynnag mae wedi dod yn glir na fydd cyfanswm o £850,000 o arbedion mewn perthynas â'r Cynnig Model Darparu Amgen ("mae arbedion mewn Trethi Annomestig Cenedlaethol a TAW yn dod o greu cwmni masnachu di-elw sy'n perthyn i'r Awdurdod Lleol. Dim ond ar ôl i'r cwmni gael ei ffurfio y caiff yr arbedion hyn eu gwireddu. Fodd bynnag, mae'n bosibl i arbedion ariannol gael eu gwneud o oedi taliadau benthyca ar gyfleuster SC2 cyn i'r cwmni gael ei ffurfio.") yn cael eu cyflawni'n gyfan gwbl. Roedd yr Achos Busnes gwreiddiol ar gyfer SC2 wedi dangos diffyg yn y flwyddyn gyntaf o £378,000 ond gydag ymrwymiad i geisio gostwng hwn trwy nifer o opsiynau. Un opsiwn oedd oedi'r taliad Benthyca Darbodus ar gyfer y flwyddyn gyntaf fel y dangosir yn y dyfyniad isod o'r adroddiad:

Mae nifer o opsiynau'n cael eu hystyried i fynd i'r afael â'r gofyniad ariannu ym mlynyddoedd 1 i 4. Mae'r rhain yn cynnwys cyfraniadau gan wasanaethau a chronfeydd wrth gefn a byddent yn cael eu hymgorffori i strategaeth gyllideb y cyngor am y blynyddoedd hynny. Yn ystyriaeth bellach, os nad yw'r cyfleuster yn gweithredu'n llawn erbyn Ebrill 2019, gellid gohirio'r costau benthyca am flwyddyn, fyddai o bosib yn cael gwared ar y gofyniad ariannu yn gyfan gwbl am y flwyddyn gyntaf, yr ail a'r drydedd. Mae cyllidebau Cyfleusterau, Asedau a Thai a Datblygu Economaidd wedi canfod arbedion refeniw posib allai gyfrannu at y gofyniad llif arian os bydd angen. Yn ogystal, mae posib defnyddio'r cronfeydd wrth gefn os bydd angen. Byddai cefnogaeth ariannol gorfforaethol ar gael i ddarparu llif arian pe byddai'r uchod yn annigonol am unrhyw reswm, ond credir na fydd angen hyn ar y cam hwn, yn enwedig os gohirir y benthyciad am flwyddyn.

Datganodd yr adroddiad hefyd:

Trwy gymeradwyo'r argymhellion, dylai'r Cyngor felly hefyd dderbyn y risg y bydd y cyfleuster, os nad yw'n cyflawni'r model achos busnes, naill ai trwy gostau ychwanegol na ragwelwyd, canlyniadau incwm is neu gyfuniad o'r ddau, yn creu pwysau ariannol y bydd angen eu cyllido yn y dyfodol. Mae'r model fel y'i cyflwynir yn adennill ei gostau ym Mlwyddyn 5 ei weithrediad, ond mae bwlch ariannu ym Mlynyddoedd 1 i 4. Mae nifer o opsiynau ariannu wedi'u hamlygu fydd yn darparu'r llif arian i lenwi'r bwlch.

Fel Cyngor penderfynwyd defnyddio lifer yr oedi i Fenthyca Darbodus er mwyn gallu cynnwys arbedion o £850,000 trwy'r Model Darparu Amgen fel rhan o broses gyllidebu 2019/20, gan leihau'r angen am doriadau mewn gwasanaethau eraill. Neilltuwyd cyllideb wrth gefn, fel y gwnaethpwyd yn y mwyafrif o flynyddoedd blaenorol, er mwyn ymdopi ag arbedion na lwyddwyd i'w cyflawni. Yn yr enghraifft hon mae'r gwasanaeth yn hyderus y bydd yn cymryd camau mawr ymlaen i fantoli'r gyllideb ym mlwyddyn ariannol nesaf y Model Darparu Amgen felly ar hyn o bryd argymhellir y dylid trosglwyddo cyfraniad ariannol o £616,000 yn unig o'r Cyfrif Wrth Gefn Cyflawni Arbedion i'r Gwasanaethau Hamdden. Caiff y cynlluniau gwasanaeth eu craffu'n ofalus fel rhan o broses gymeradwyo'r Cynllun Busnes 3 blynedd ar gyfer Cwmni Hamdden Sir Ddinbych dros y misoedd nesaf. Caiff unrhyw newidiadau i'r tybiaethau presennol eu hadrodd wrth y Cabinet mewn adroddiadau yn y dyfodol.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn sylfaen i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae naratifau gwasanaethau pwysig, sy'n egluro'r amrywiadau a'r risgiau, i'w gweld yn y paragraffau isod.

**Gwasanaethau Cymorth Cymunedol –** rhagamcanir y bydd Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn gorwario £205,000 (£519,000 fis diwethaf).

Mae'r rhagamcaniad hwn yn tybio y bydd gweddill cronfa wrth gefn y gwasanaeth o £821,000 yn cael ei defnyddio yn ystod y flwyddyn. Mae'r gostyngiad o'i gymharu â'r mis diwethaf yn dod o ragamcaniad y bydd grant ar gyfer pwysau'r gaeaf yn cael ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn. Mae'r pwysau sylfaenol o £1.3 miliwn wedi'i gynnwys

yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig presennol ar gyfer 2020/21 a bydd yn cael ei adolygu'n barhaus dros y misoedd nesaf.

Mae'r **Gwasanaeth Addysg a Phlant** bellach yn dangos gorwariant o £1.079 miliwn (£0.967 miliwn fis diwethaf). Mae hyn yn cynnwys yr holl leoliadau maethu annibynnol a phreswyl cost uchel wedi'u prisio gyda therfynau amser realistig. Ni roddwyd unrhyw lwfans ar gyfer lleoliadau newydd yn y flwyddyn ariannol. Y maes sy'n achosi'r pwysau mwyaf yw lleoliadau drud, ac mae'r gorwariant a ragwelir ar hyn o bryd yn £1.162k. Mae rhywfaint o'r gwariant hwn yn cael ei osod yn erbyn grant pwysau cynaliadwy (£198 mil) a thanwariant ar staffio oherwydd swyddi gwag. Mae pwysau lleoliadau wedi'i achosi gan 5 lleoliad preswyl newydd a 7 lleoliad maeth annibynnol newydd a ddechreuodd yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r lleoliad preswyl drutaf yn £6,360 yr wythnos. Fel y gwelir, gall pob lleoliad unigol fod yn arbennig o ddrud ac felly gall unrhyw gynnydd mewn niferoedd gael effaith fawr ar y gyllideb. Rhagamcanir y bydd elfen Addysg y Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir ac Adennill yn gorwario £112,000 ar ôl cadarnhau niferoedd disgyblion sydd wedi arwain at ddiffyg pellach mewn incwm oddi wrth Awdurdodau Lleol eraill sy'n mynychu ein hysgolion arbennig.

Rhagamcanir y bydd **Gwella Busnes a Moderneiddio** yn tanwario £59,000 (£53,000 fis diwethaf) yn bennaf oherwydd arbedion yn sgil swyddi gwag. Mae nifer o gontractau TG yn cael eu trafod ar hyn o bryd a gallai hynny gynyddu'r costau yn y dyfodol.

Rhagamcanir y bydd y **Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd** yn tanwario £37,000 (£54,000 fis diwethaf) o ganlyniad i arbedion swyddi gwag wrth baratoi ar gyfer adolygiad gwasanaeth a chynnydd yn incwm y Gwasanaeth Cofrestru. Mae costau ymadael ychwanegol wedi gostwng y tanwariant fymryn.

**Gwasanaethau'r Amgylchedd a Phriffyrdd –** Rhagamcanir y bydd y gwasanaeth bellach yn gorwario £390,000. Y prif feysydd sy'n peri pryder yw:

- **Gwasanaeth Gwastraff –** Mae'r gwasanaeth wedi gorwario £1.4 miliwn ar hyn o bryd, ond mae'n defnyddio £1.2 miliwn o Gronfa Wrth Gefn y Gwasanaethau Gwastraff. Dim ond am flwyddyn arall y bydd hyn yn bosibl ac mae pwysau o £0.9 miliwn wedi'i gynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2020/21.
- **Strydwedd –** Er bod cyllid wedi cael ei ddyrannu i glirio tipiau a etifeddwyd, ymddengys y bydd costau ychwanegol i'w talu. Mae asesiad o'r rhain wedi'i gynnwys yn y rhagamcaniadau.
- **Cynnal a Chadw dros y Gaeaf –** Mae'r gyllideb bresennol, ochr yn ochr â chronfa wrth gefn tywydd eithafol, yn ddigon i ymdopi â gaeaf arferol. Mae'n debyg y bydd unrhyw dywydd eithafol angen nodi adnoddau arian parod ychwanegol i dalu am y costau.

**Cynllunio a Gwarchod Y Cyhoedd –** ar ôl trosglwyddo Cludiant Ysgol i'r gwasanaeth hwn, rhagamcanir nawr y bydd y gwasanaeth yn gorwario £568,000. Mae'r gwasanaeth Cludiant i'r Ysgol wedi derbyn £900,000 o gyllid ychwanegol yn y ddwy broses gyllideb ddiwethaf. Fodd bynnag, fel y nodwyd mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r gwasanaeth yn parhau i fod yn faes sy'n peri pryder ac mae'n gysylltiedig â newidiadau polisi a gwasanaeth o fewn Addysg. Mae'r ffigwr yn cynrychioli'r rhagamcaniad cywiraf y gallwn ei ddarparu yn seiliedig ar niferoedd disgyblion diweddaraf, llwybrau a chontractau ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd.

